

Gwyddor Anifeiliaid a'r Biowyddorau Milfeddygol

NEWYDDLEN 2016

www.aber.ac.uk/cy/ibers



I gael y newyddion diweddaraf
ar y pynciau hyn yn Aberystwyth
dilynnwch @IBERSbio ar twitter

IBERS Athrofa y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Canolfan Milfeddygaeth Cymru yn agor yn Aberystwyth

Cafodd Canolfan Milfeddygaeth Cymru ei hagor yn swyddogol gan Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans. Sefydlwyd Canolfan Milfeddygaeth Cymru gan Brifysgol Aberystwyth, consortiwm o filfeddygfeydd annibynnol a Chynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. Bydd y Ganolfan yn cynnig archwiliadau post-mortem arbenigol o afiechydon newydd a rhai sy'n ailymddangos mewn anifeiliaid. Yn ogystal, bydd y Ganolfan hefyd



Agoriad swyddogol Canolfan Milfeddygaeth Cymru: chwith i dde, yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Rebecca Evans AC Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru, a Mr Phil Thomas, Cyfarwyddwr, Iechyd Da.

yn cydweithio'n agos a'r Brifysgol i addysgu myfyrwyr. Dywedodd Jon King MRCVS ar ran y Ganolfan: "Rydym yn teimlo'n gyffrous o fod yn rhan o ddarparu'r rhaglen radd newydd yn y biowyddorau milfeddygol yn ogystal â datblygu ymchwil newydd gyda staff a myfyrwyr IBERS ar ddiagnosteg filfeddygol."

Digwyddiad gofal milfeddygol ar anifeiliaid sw

Roedd ein myfyrwyr 3ed flwyddyn wedi mwynhau prynhawn yn ddiweddar yn dysgu am heriau unigryw gofal milfeddygol ar anifeiliaid egstotig mewn swau. Cawsant eu tywys o gwmpas y sw yn y Borth gan y milfeddyg Jon King a gofalwraig y sw Charlotte Foster, a soniwyd am bynciau megis cwarantîn, milheintiau, llawdriniaethau ar anifeiliaid egstotig a chreu'r lloc newydd i lewod. Cafodd y myfyrwyr gyfle hefyd i ryngweithio ag ymlusgiaid a dysgu am eu gofal a materion milfeddygol posibl.



Rhestr Cyrsiau

MSc

Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Ceffylau
Gwyddor Da Byw

BSc

Gwyddor Anifeiliaid
Amethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Ceffylau
Gwyddor Ceffylau gyda Biowyddorau
Milfeddygol
Biowyddorau Milfeddygol

Oes gennych chi ddi-ddordeb?

Ffôn Iain Chalmers ar 01970 628505
Ebost: iwc@aber.ac.uk


Mynd i'r afael â chlefydau heintus

Anrhydedd i'n myfyrwyr a'n staff oedd cynnal seminar gan yr Athro Emeritws Paul Gibbs o Brifysgol Florida ar y pwnc "Un Iechyd". Ac yntau'n Gymrawd Coleg Brenhinol y Milfeddygon, mae Paul Gibbs wedi derbyn gwobrau lu am ei ymchwil ar feirysau milfeddygol ac yn fwyaf diweddar yn ei yrfa mae hefyd wedi helpu i sefydlu ysgolion milfeddygol newydd yn yr Unol Daleithiau. Yn ei sgwrs, trafododd y gorgyffwrdd rhwng clefydau milfeddygol a chlefydau pobl megis yr achosion diweddar o Ebola.



Aberystwyth yn arwain y ffordd mewn ymchwil paraseit milfeddygol

Testun cyffro i IBERS yw cael saith o fyfyrwyr PhD newydd yn dechrau ym maes parasitoleg filfeddygol, gan gynnwys pump o raddedigion diweddar Prifysgol Aberystwyth. Mae'r cyllid ar gyfer y penodiadau PhD wedi dod o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), a bydd yr ymchwil yn mynd i'r afael â llawer o agweddau ar wneud diagnosis a rheoli llyngyr parasitig sy'n effeithio ar amrywiaeth o anifeiliaid. Yn benodol, mae canfod diagnosteg a chyffuriau newydd i'r llyngyr fflat sy'n heintio anifeiliaid cnoi cil amaethyddol yn bwnc allweddol i lawer o'r myfyrwyr PhD newydd. Serch hynny, mae'r grŵp parasitoleg filfeddygol yn cydnabod yr effaith y gall llyngyr parasitig ei gael y tu allan i amgylchedd amaethyddol ac mae'n defnyddio llawer o'i sgiliau mewn meysydd newydd. Yn benodol, bwriad un myfyriwr PhD yw brwydro yn erbyn yr llyngyr parasitig sydd yn un o rywogaethau anifeiliaid mwyaf adnabyddus y byd, y Panda Mawr. Mewn cydweithrediad â sw Caeredin, bydd Catherine Pye (sydd wedi graddio o Aberystwyth) yn dechrau ar ei phrosiect PhD i ymchwilio a yw'r llyngyr parasitig mewn Pandas Mawr yn dechrau gallu gwrthsefyll y cyffuriau presennol a ddefnyddir i'w rheoli.



Camdyfiant y glun mewn cŵn

Anrhydedd i'n myfyrwyr a'n staff oedd cynnal seminar gan yr Athro Emeritws Paul Gibbs o Brifysgol Florida ar y pwnc "Un lechyd". Ac yntau'n Gymrawd Coleg Brenhinol y Milfeddygon, mae Paul Gibbs wedi derbyn gwobrau lu am ei ymchwil ar feirysau milfeddygol ac yn fwyaf diweddar yn ei yrfa mae hefyd wedi helpu i sefydlu ysgolion milfeddygol newydd yn yr Unol Daleithiau. Yn ei sgwrs, trafodd y gorgyffwrdd rhwng clefydau milfeddygol a chlefydau pobl megis yr achosion diweddar o Ebola.

Ceffylau Tu Fewn Tu Fas

Cafodd ein myfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid a Biowyddorau Milfeddygol y pleser o weld arddangosiad gan y sefydliad rhyngwladol enwog "Horses Inside Out". Cynhaliwyd y digwyddiad yn arena marchogaeth dan do Prifysgol Aberystwyth yng Nghanolfan Ceffylau Lluest, a chafodd ein myfyrwyr arweiniad arbenigol i symudedd ceffylau gan Gillian Higgins. Gan ddefnyddio ceffylau byw a'u cyrff wedi'u paentio, llanwyd y prynhawn â dealltwriaeth anatomegol fanwl a fydd yn sicr o fudd i'n myfyrwyr yn eu modiwl Equine Anatomy and Physiology.



Arbenigwr ar Wybyddiaeth Anifeiliaid yn ymuno â staff Aberystwyth



Mae Dr Sebastian McBride wedi ymuno ag IBERS o Brifysgol Caergrawnt lle mae wedi gweithio ers 4 blynedd yn sefydlu profion gwybyddol mewn defaid fel rhan o brosiect ymchwil parhaus ar y clefyd Huntington mewn pobl. Cyn hynny, gweithiai Sebastian yn Adran Cyfrifiadureg, Aberystwyth ar y prosiect REVERB (peirianeg yr ymennydd fertebraidd). Ysgogodd y gwaith hwn ei ddiddordeb ym mecaneg systemau'r ymennydd a'i gynorthwyo i gael dealltwriaeth beirianyddol ynghylch sut y gall pethau fynd o'i le yn yr ymennydd mewn ymateb i straen ac afiechyd. Mae dod â'r meysydd ymchwil hyn at ei gilydd yn ddiddordeb ganddo ers tro, sef ymddygiad ailadroddus annormal (stereoteip) mewn anifeiliaid. Pwnc PhD Sebastian ym Mhrifysgol Caeredin oedd stereoteip ceffylau ac mae wedi parhau â'r ymchwil hwn gan ddatblygu'r cydberthynas niwroffisiolegol ac ymddygiadol â'r cyflyrau ymddygiad annormal hyn. Mae Sebastian yn hynod frwdfrydig dros ymuno ag IBERS gan ddweud ei fod yn cynnig cyfle gwyb i ddatblygu ymchwil mawr ar wybyddiaeth anifeiliaid yn Aberystwyth'.

